# Rob **Eastaway**

***Teitl Swydd:*** *Awdur, siaradwr ar fathemateg, criced a chreadigrwydd (hunan gyflogedig)*
***Cymwysterau:*** *MA mewn Peirianneg a Rheolaeth Gwyddoniaeth*

**Mae fy mywyd yn gyfres o brosiectau sy'n plethu gyda'i gilydd. Rwyf wrth fy modd â'r amrywiaeth a'r symbyliad o fod yn hunan gyflogedig, er bod yr ansicrwydd weithiau'n creu anesmwythyd.**

Er bod 'awdur' yn label cyfleus, yn ymarferol mae'n debyg mai dim ond tua 20 y cant o fy amser rwyf yn dreulio ar brosiectau llyfrau. Yn aml byddaf yn rhoi sgyrsiau, cynllunio a chynnal seminarau, a recordio cyfweliadau a darnau eraill ar gyfer y radio. Rwyf hefyd yn gyfrifol am osod safleoedd rhyngwladol cricedwyr, sy'n golygu cyswllt aml â'r Cyngor Criced Rhyngwladol yn Dubai (gwaetha'r modd, nid wyf yn cael y cyfle i deithio yno). Ar ddiwrnod nodweddiadol, efallai y treuliaf amser yn gweithio ar y cyfan o'r pethau hyn.



*"Gwnewch yr hyn rydych yn hoffi wneud, ond cadwch olwg bob amser ar bethau a fydd yn eich gwneud yn gyflogadwy yn y tymor hirach"*

Roedd gen i bob amser ddiddordeb mewn mathemateg a phosau, ond pan ddaeth hi yn amser cymryd gradd, dewisais wneud Peirianneg oherwydd bod natur gymhwysol datrys problemau mathemategol yn apelio ata'i. Cyfunais y sgiliau hynny gyda'm hoffter o gyfathrebu, gan weithio mewn ymgynghoriaeth rheolaeth i ddechrau, ac yn awr yn y gweithgareddau amrywiol yr wyf yn ymhél â nhw.

Fy nghyngor gyrfa? Gwnewch yr hyn rydych yn hoffi ei wneud, ond cadwch olwg bob amser ar bethau a fydd yn eich gwneud yn gyflogadwy yn y tymor hirach.

# Rob **Eastaway**

***Job Title:*** *Author, Speaker on maths, cricket and creativity, Self-employed*
***Qualifications:*** *MA Engineering and Management Science*

**My life is a series of projects which intertwine with each other. I love the diversity and stimulation of being self-employed, despite the fact that the insecurity is sometimes unsettling.**

Although 'author' is a convenient label, in practice I probably only spend about 20 per cent of my time on book projects. I frequently give talks, design and run seminars, and record interviews and other pieces for radio. I am also responsible for the international rankings of cricketers, which requires frequent contact with the International Cricket Council in Dubai. (Alas I don't get to travel there.) On a typical day, I might spend some time working on all of these things.



*"Pursue what you love doing but always keep one eye on things that will make you employable in the longer term."*

I was always interested in maths and puzzles but, when it came to taking a degree, I opted for Engineering because the applied nature of the mathematical problem solving appealed to me. I combined those skills with my love of communicating, first working in management consultancy and now in the diverse activities that I undertake.

My career advice? Pursue what you love doing but always keep one eye on things that will make you employable in the longer term.